# NOSC 2026 Rhif 73

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF

## Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Glo a Phetrolewm) (Hysbysu) (Cymru) 2026

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan erthyglau 18(1), 22(5) ac 31 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Cyfarwyddyd hwn yw Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Glo a Phetrolewm) (Hysbysu) (Cymru) 2026 a daw i rym ar 7 Ebrill 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Cyfarwyddyd hwn—

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**2**);

ystyr "datblygiad glo a phetrolewm" ("*coal and petroleum development*") yw datblygiad sy'n cynnwys—

(a) mewn perthynas â glo—

(i) chwilio am lo a thurio amdano,

(ii) ei ennill, ei weithio a'i gael (pa un ai o dan y ddaear, yn ystod gweithrediadau mwyngloddio brig, neu o ddyddodion gweithio mwynau gan gynnwys tomenni nas defnyddir),

(**1**) O.S. 2012/801 (Cy. 110).
(**2**) 2000 p. 7. Diwygiwyd adran 15(1) gan baragraff 158 o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21).

(iii) dod â glo tanddaearol i'r wyneb, trin glo a'i wneud yn werthadwy,

(iv) trin glo yn y strata at ddiben ennill unrhyw gynnyrch o lo ac ennill, gweithio neu gael unrhyw gynnyrch o lo sy'n deillio o driniaeth o'r fath, neu

(v) dyddodi sborion o unrhyw weithgarwch a gynhelir yn ystod unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau uchod a draenio glofeydd;

(b) mewn perthynas â phetrolewm, chwilio am betrolewm, turio am betrolewm a chael petrolewm;

ystyr "dyddodion gweithio mwynau" ("*mineral-working deposits*") yw unrhyw ddyddodion deunydd sy'n weddill ar ôl i fwynau gael eu hechdynnu o dir neu sy'n deillio fel arall o gynnal gweithrediadau ar gyfer ennill a gweithio mwynau ar dir, pa un ai drwy weithio o dan y ddaear neu ar yr wyneb;

mae i "glo" a "glofa" yr ystyron a roddir i "coal" a "coal mine" yn adran 65(1) o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994(**1**);

mae "mwynau" ("*minerals*") yn cynnwys pob sylwedd o fath sy'n cael ei weithio i'w symud ymaith fel arfer drwy weithio o dan y ddaear neu ar yr wyneb, ac eithrio nad yw'n cynnwys mawn sy'n cael ei dorri at ddibenion ac eithrio ei werthu;

mae i "petrolewm" yr ystyr a roddir i "petroleum" yn adran 1 o Ddeddf Petrolewm 1998(**2**);

mae i "tomen nas defnyddir" ("*disused tip*") yr ystyr a roddir yn adran 86(3) o Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025(**3**).

**Cymhwyso**

**3.** Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio a wneir i awdurdod cynllunio lleol—

(a) sy'n ymwneud â thir yng Nghymru,

(b) a wneir ar 7 Ebrill 2026 neu wedi hynny,

(c) ar gyfer datblygiad sy'n ddatblygiad glo a phetrolewm, a

(d) nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnig ei wrthod.

(**1**) 1994 p. 21.
(**2**) 1998 p. 17.
(**3**) 2025 dsc 4.

**Hysbysu Gweinidogion Cymru**

**4.** Pan na fo awdurdod cynllunio lleol yn cynnig gwrthod cais am ddatblygiad glo a phetrolewm, rhaid i'r awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru.

**5.** Pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, rhaid iddo anfon at Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, drwy gyfathrebiad electronig neu fel arall—

(a) copi o'r cais (gan gynnwys copïau o unrhyw blaniau a lluniadau cysylltiedig ac unrhyw asesiad priodol o'r perygl o lifogydd, trafnidiaeth, sŵn neu unrhyw asesiad priodol arall) a gwybodaeth ategol,

(b) copi o'r hysbysiad gofynnol,

(c) copi o unrhyw sylwadau a wnaed i'r awdurdod mewn cysylltiad â'r cais gan gynnwys unrhyw farn a fynegwyd gan adran o'r llywodraeth (sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru), awdurdod cynllunio lleol arall neu ymgynghorai arall,

(d) copi o unrhyw adroddiad ar y cais a luniwyd gan un o swyddogion yr awdurdod;

(e) copi o unrhyw farn sgrinio a ddyroddwyd o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017(**1**), ac

(f) copi o unrhyw asesiadau priodol a gynhaliwyd o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017(**2**).

**Y cyfnod perthnasol cyn y caiff awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio**

**6.** Yn ddarostyngedig i baragraff 7, pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, ni chaiff yr awdurdod roi caniatâd cynllunio i'r cais tan ddiwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig mai dyna'r dyddiad iddynt gael yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 5.

(**1**) O.S. 2017/567 (Cy. 136), y mae diwygiadau iddo.
(**2**) O.S. 2017/1012, y mae diwygiadau iddo.


**7.** Caiff yr awdurdod cynllunio lleol fwrw ymlaen i benderfynu ar y cais os bydd Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 6, yn hysbysu’r awdurdod—

(a) nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi cyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) mewn cysylltiad â’r cais hwnnw, neu

(b) nad yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y datblygiad yn ddatblygiad glo a phetrolewm.

**Canslo**

**8.** Mae Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Glo a Phetrolewm) (Cymru) 2018 wedi ei ganslo ac eithrio y bydd yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gais am ganiatâd cynllunio sy’n ymwneud â thir yng Nghymru a wnaed cyn 7 Ebrill 2026.



Llofnodwyd gan Neil Hemington, Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad 2 April 2026

(**1**) 1990 p. 8.